# Dewisiadau Amgen
# Alternative Options

Pan ddatblygwyd cynigion ar gyfer y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod yn gyntaf, cynhaliwyd astudiaeth i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ddarparu mynediad at y safle. Amlygodd yr astudiaeth hon nifer o opsiynau, ond daeth i'r casgliad mai'r opsiwn dewisol oedd adeiladu'r Ffordd Fynediad Ogleddol. Ailarchwiliwyd canfyddiadau'r astudiaeth wreiddiol yng ngoleuni'r uwchgynllun diwygiedig, o ystyried nad yw'r Coleg Technegol Amddiffyn yn cael ei gynnig mwyach.

Ystyrir bod dau opsiwn ymarferol posibl ar gael o hyd:

- Adeiladu'r Ffordd Fynediad Ogleddol; neu
- Uwchraddio ffordd bresennol Heol Eglwys Brewis.


Cynhaliwyd asesiad manwl i archwilio dichonolrwydd uwchraddio ffordd bresennol Heol Eglwys Brewis.


When proposals for the Defence Technical College and Aerospace Business Park were first developed, a study was undertaken to determine the most appropriate means of providing access to the site. This study identified a number of options but concluded that the preferred option was to construct the Northern Access Road. The findings of the original study have been re-examined in light of the revised masterplan given that the Defence Technical College is no longer proposed.

Two potentially viable options have been considered:

- Construct the Northern Access Road; or
- Upgrade the existing Eglwys Brewis Road.

A detailed assessment has been undertaken to examine the feasibility of upgrading the existing Eglwys Brewis Road, as shown below.




**Rhan nodweddiadol ffordd presennol Eglwys-Brewis**
**Typical existing Eglwys-Brewis Road cross section**
Scale 1:100

**Rhan nodweddiadol ffordd arfaethedig Eglwys-Brewis**
**Typical proposed Eglwys-Brewis Road cross section**
Scale 1:100

## Uwchraddio Heol Eglwys Brewis

Er mwyn cael ei hystyried yn ddewis arall dichonadwy i'r Ffordd Fynediad Ogleddol, byddai angen rhoi ystod o fesurau ar waith ar Heol Eglwys Brewis, fel a ganlyn:

- Lledu'r lôn gerbydau i ddarparu lled lleiaf o 7.3m;
- Adeiladu llwybr troed/llwybr beicio ar y cyd;
- Ailffurfweddu'r bont reilffordd bresennol i ddarparu uchdwr digonol.

## Upgrading Eglwys Brewis Road

In order to be considered a viable alternative to the Northern Access Road a range of measures would need to be implemented on Eglwys Brewis Road, as follows:

- Carriageway widening to provide a minimum width of 7.3m;
- Construction of shared footway/cycleways;
- Reconfiguration of the existing railway bridge to provide sufficient headroom.